**Cydgyfarfod y Cynghorau**

Cofnodion **ANGHYFYNGEDIG** y cyfarfod a gynhaliwyd am 4.00pm ar ddydd Iau 25 Ionawr 2024 ar Zoom

Yn bresennol:
Emlyn Dole (Cadeirydd)
Yr Athro Elwen Evans KC (Is-Ganghellor)
Justin Albert
Yr Athro Kyle Erickson
Geraint Evans
Taya Gibbons
Uzo Iwobi
Rowland Jones
Timothy Llewelyn
Arwel Ellis Owen
Yr Athro Conny Matera Rogers
Geraint Roberts
Nigel Roberts
Emlyn Schiavone
Dr Liz Siberry
Dr Peter Spring
Iwan Thomas
Dr Kerry Tudor
Dr Stuart Robb
Deris Williams

Yn gweinyddu:
Natalie Beard, Cynrychiolydd Undeb y Myfyrwyr
Gavin Bessant, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Ariannol
Dr Andrew Cornish, Prifathro, Coleg Sir Gâr
Rebecca Doswell, Clerc
Yr Athro Dylan Jones, Dirprwy Is-Ganghellor
Yr Athro Mirjam Plantinga, Pro Is-Ganghellor
Jane O'Rourke, Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Dynol

Catrin Beard (Cyfieithydd)
Margaret Williams (Ysgrifennydd)

| Eitem Agenda | Prif Bwyntiau Trafod | Cam gweithredu/penderfyniad |
|---|---|---|
| 24.01<br>Croeso ac Ymddiheuriadau am absenoldeb | Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan John Edge. | |
| 24.02<br>Datgan buddiannau | DERBYNIODD y Cynghorau'r Datganiadau o Fuddiannau fel y nodwyd yn adroddiad y Clerc (JCO236). | |
| 24.03<br>Adroddiad y Cadeirydd | DERBYNIODD y Cynghorau adroddiad llafar y Cadeiryddion (JCO237).<br><br>Adroddodd y Cadeirydd ar ei ymweliad â champws Llundain a nododd y byddai'n ymweld ymhellach â safle Canary Wharf yn fuan.<br><br>Canmolodd y Cadeirydd seremonïau graddio llwyddiannus Caerdydd a soniodd am y fraint o gael mynychu'r podlediad sector gofal diweddar yng Nghanolfan Dylan Thomas.<br><br>Cyfeiriodd y Cadeirydd at y gyfres o gyfarfodydd un i un gydag aelodau a diolchodd iddynt am eu cydweithrediad yn y broses. | |
| 24.04<br>Adroddiad yr Is-Ganghellor | DERBYNIODD y Cynghorau adroddiad llafar yr Is-Ganghellor (JCO238).<br><br>Diolchodd yr Is-Ganghellor i gydweithwyr ac aelodau am eu cefnogaeth a'u cymorth. Adroddodd bod swyddogion wedi dechrau edrych ar gynllunio strategol y Brifysgol ar gyfer y dyfodol a hysbysodd aelodau bod y COO yn arwain y tîm, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o unedau proffesiynol ac academaidd, ar ddylunio ffyrdd cyfannol newydd o weithio ar draws y Brifysgol a datblygu model cynllunio busnes newydd a fyddai'n dangos y ffordd mae'r Brifysgol yn gweithio gyda'i gilydd. Byddai cyflwyniad am y model cynllunio busnes newydd yn cael ei roi i aelodau yn ystod diwrnodau cwrdd i ffwrdd mis Mawrth.<br><br>Adroddodd yr Is-Ganghellor ar yr adolygiad canlyniadau Prevent rhagorol yn ddiweddar a'r adroddiad Ofstead rhagorol ar ddarpariaeth brentisiaeth y Brifysgol.<br><br>Adroddodd yr Is-Ganghellor bod y Brifysgol wedi penodi Pro Is-Ganghellor (Masnachol a Busnes) a Chyfarwyddwr Marchnata newydd.<br><br>Cyfeiriodd yr Is-Ganghellor at bartneriaeth y Brifysgol gyda Llyfrgell Genedlaethol Cymru a dywedodd y byddai'n cwrdd â'r Prif Swyddog Gweithredol yn fuan. | |

| Eitem Agenda | Prif Bwyntiau Trafod | Cam gweithredu/penderfyniad |
|---|---|---|
| | Adroddodd yr Is-Ganghellor bod y Brifysgol wedi cael ei chydnabod gan ddyfarniad dosbarth cyntaf yn nhablau cynghrair *People and Planet*.<br><br>Hysbysodd y Dirprwy Is-Ganghellor y Cynghorau y byddai'n gadael y Brifysgol ar ddiwedd Mawrth. Diolchodd yr Is-Ganghellor iddo am ei gefnogaeth a'i wasanaeth ymroddedig i'r Brifysgol. | |
| 24.05 Adroddiad Undeb y Myfyrwyr | DERBYNIODD y Cynghorau adroddiad Undeb y Myfyrwyr (JCO240).<br><br>Adroddodd Llywydd y Grŵp ei bod wedi cwrdd â Llywydd Coleg Sir Gâr i drafod beth allai Undeb Myfyrwyr ei gynnig i'w myfyrwyr addysg uwch ac roedd wedi paratoi gwybodaeth ar fynediad i'r gwasanaethau sydd ar gael.<br><br>Adroddodd Llywydd y Grŵp bod pob myfyriwr wedi cael gwahoddiad i fynychu wythnos y Glas sy'n cael ei gynnal yn ystod yr wythnos 29 Ionawr.<br><br>Diolchodd Llywydd y Grŵp i Brofost campysau Llundain a Birmingham a'i thîm am eu cefnogaeth wrth ymgynefino myfyrwyr. Dywedodd bod adborth da wedi'i dderbyn gan fyfyrwyr.<br><br>Adroddodd Llywydd y Grŵp ar gynnydd a wnaed rhwng y Brifysgol a BUCS ar y prosiect UNIversal Gyms. Byddai Undeb y Myfyrwyr yn hyrwyddo'r prosiect newydd hwn i gefnogi ymgysylltu ar draws yr holl safleoedd nad oedd ganddynt gyfleusterau chwaraeon ar hyn o bryd. | |
| 24.06 Diweddariad dwyflynyddol Cynllun Uno PC PCYDDS | DERBYNIODD a NODODD y Cynghorau diweddariadau dwyflynyddol Cynllun Uno PC PCYDDS (JCO240). | |
| 24.07 Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Tachwedd 2023 | CYMERADWYODD y Cynghorau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Tachwedd 2023 (UWC241).<br><br>Adroddodd y Clerc bod Undeb y Myfyrwyr wedi darparu geiriad amgen ar gyfer cofnod 23.58 ac y byddai'r cofnodion yn cael eu diweddaru'n unol â hynny ar ôl y cyfarfod. | Ysgrifennydd i ddiwygio'r cofnodion |
| 24.08 | DERBYNIODD y Cynghorau ddiweddariad ar y Strwythur Cydffederal (JCO242). | |

| Eitem Agenda | Prif Bwyntiau Trafod | Cam gweithredu/penderfyniad |
|---|---|---|
| Strwythur cydffederal - diweddariad | | |
| 24.09 Adroddiad Iechyd a Diogelwch | DERBYNIODD y Cynghorau'r adroddiad Iechyd a Diogelwch (JCO243).<br><br>Nododd yr aelodau'r cynnydd mewn digwyddiadau iechyd a diogelwch a chytunwyd y byddai'r Clerc yn canfod p'un a oedd hyn o ganlyniad i gyflwyno'r system newydd ar gyfer adrodd digwyddiadau. | Clerc i geisio eglurhad |
| 24.10 Adroddiad busnes Craffu Grŵp | DERBYNIODD y Cynghorau ddiweddariad llafar ar gyfarfod y Pwyllgor Craffu Grŵp (JCO244).<br><br>Hysbysodd Gadeirydd y pwyllgor y Cynghorau bod y cyfarfod wedi derbyn adroddiad cynhwysfawr iawn gan y DFS ar swyddogaethau a datganiadau ariannol yr is-gwmnïau a ddarparodd eglurder a dealltwriaeth o swyddogaethau'r cwmnïau. Gwnaed nifer o argymhellion ar gyfer diddymiad cwmnïau cwsg.<br><br>Hefyd, roedd aelodau wedi trafod diben ac effeithiolrwydd y pwyllgor a chytunwyd y byddai'r Is-Ganghellor a'r Clerc yn trafod sut i gymryd y materion hyn ymlaen. | |
| 24.11 Adroddiad busnes taliadau 6 Rhagfyr 2023 | DERBYNIODD y Cynghorau adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Taliadau a gynhaliwyd ar 6 Rhagfyr 2023 (JCO245).<br><br>Bydd trafodaethau ynglŷn ag amrediad y pwyllgor yn cael eu cynnal yn y cyfarfod nesaf. | |
| 24.12 Adroddiad blynyddol y Pwyllgor Taliadau | DERBYNIODD y Cynghorau adroddiad blynyddol y Pwyllgor Taliadau (JCO246). | |
| 24. Datgan buddiannau | Ni ddatganwyd unrhyw wrthdaro buddiannau ychwanegol yn ystod y cyfarfod. | |
| 24. Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf | Byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 21 Mawrth 2023. | |

Daeth y cyfarfod i ben am 16.50pm